

<b>Cyfarfod:</b>	<b>Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion</b>
<b>Dyddiad:</b>	<b>14 Chwefror 2019</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Adroddiad Blynyddol – Polisi Tâl y Cyngor</b>
<b>Pwrpas</b>	<b>Cytuno ar argymhelliad i'r Cyngor llawn</b>
<b>Awdur:</b>	<b>Dilwyn Williams – Prif Weithredwr</b>
<b>Aelod Cabinet</b>	<b>Y Cynghorydd Nia Jeffreys</b>

## CEFNDIR

1. Ers 2012 mae yna ddyletswydd statudol ar bob Cyngor i fabwysiadu polisi tâl yn flynyddol. Mae'r gofyn statudol hwnnw yn nodi mai swyddogaeth i'r Cyngor llawn yw cymeradwyo'r polisi tâl.
2. Pan yn mabwysiadu'r polisi tâl ar gyfer 2012 / 13, penderfynodd y Cyngor llawn ofyn i'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion gynnal adolygiad blynyddol o gynladwyedd y polisi tâl i'r dyfodol a chyflwyno argymhellion i gyfarfod o'r Cyngor llawn ym mis Mawrth pob blwyddyn.
3. Yn sgil hynny ac yn unol â threfniadau sydd wedi'u gweithredu yn y cyfamser, gofynnir i'r Pwyllgor hwn ystyried cynnwys y drafft o bolisi tâl ar gyfer 2019 / 20 a chyflwyno argymhelliad i gyfarfod o'r Cyngor llawn ar y 7fed o Fawrth eleni.

## PRIF SWYDDOGION

4. Ni fu newidiadau i gyfrifoldebau ar lefel Penaethiaid Adran a Chyfarwyddwyr Corfforaethol yn ystod 2018/19 ac nid oes felly arfarniad o'r newydd wedi'i gynnal ar gyfer 2019/20. Mae cyflogau presennol Prif Swyddogion fodd bynnag wedi'u seilio ar un ai chwarterl isaf neu ganolrif swyddi o faint cyfatebol o fewn y Farchnad Sector Gyhoeddus Cenedlaethol, fel ag yr oedd yn ymddangos yn Ionawr 2012.
5. Golyga hyn nad yw'r gymhariaeth hefo swyddi o faint cyfatebol yn y Farchnad Sector Gyhoeddus Cenedlaethol wedi'i gynnal fel rhan o adolygu'r Polisi Tâl Corfforaethol ers chwe mlynedd bellach. Mae'n bur debygol felly bod cyflogau Prif Swyddogion yng Ngwynedd wedi gostwng yn is na'r chwarterl isaf a'r canolrif ar gyfer swyddi cyfatebol yn y cyfamser. Awgrymwyd ddwy flynedd yn ôl y byddai'n amserol cynnal ymarferiad o'r math er mwyn ystyriaeth gan y Pwyllgor pan yn adolygu'r Polisi ar gyfer 2018/19. Fodd bynnag, yn sgil yr hinsawdd ariannol, penderfynwyd peidio cynnal yr adolygiad. Mae'r sefyllfa ariannol yn parhau i fod yn heriol iawn wrth gwrs ac o ganlyniad nid oes ymarferiad wedi ei gynnal eleni chwaith. Mae hyn yn golygu, yn ei dro, fod yna berygl i gyflogau prif swyddogion y Cyngor hwn golli tir hefo cyflogau awdurdodau eraill cyfagos.
6. Y llynedd penderfynodd y Cyd-Gyngor Trafod Telerau Cenedlaethol ar gyfer Prif Swyddogion a'r Cyd-Gyngor Trafod Telerau ar gyfer Prif Weithredwyr ar godiadau cyflog o 2% am y ddwy flynedd ariannol yn arwain hyd at ddiwedd 2019 / 20.
7. Mae hawl gyntundebol gan y Prif Swyddogion a'r Prif Weithredwr i'r codiadau cyflog a sicrhau yn genedlaethol ac i'r pwrpas hwnnw mae'r drafft o'r polisi tâl yn datgan, fod gan **y Prif**

**Swyddogion a gyflogir o dan amodau a thelerau y JNC yr hawl cytundebol i unrhyw godiad cyflog cenedlaethol a ddyfernir gan y JNC a bydd y Cyngor felly yn talu'r rhain yn unol â gofynion cytundebol presennol.'** Golyga hyn bod y Cyngor yn cymeradwyo'r codiadau cyflog a ddyfernir yn genedlaethol yn sgil mabwysiadu'r polisi tâl yn flynyddol.

#### **SWYDDI O DAN LEFEL PRIF SWYDDOG**

8. Yn ystod 2018 daeth cynrychiolwyr cenedlaethol y Cyflogwyr Llywodraeth Leol a'r undebau llafur i gytundeb ar godiadau cyflog ar gyfer y gweithlu llywodraeth leol yn ehangach. Roedd y cytundeb hwnnw yn un dwy flynedd am y cyfnod 2018 – 2020. Arweiniodd hynny at gynydd cyffredinol o 2% mewn cyflogau ar gyfer y flwyddyn 2018/19, gyda'r staff ar y graddfeydd cyflog isaf yn derbyn canrannau uwch.
9. Bydd y cynnydd cyffredinol ar gyflogau 2019/20 yn 2% pellach, gyda staff sydd ar y graddfeydd isaf yn derbyn canrannau uwch. Mae'r newid hwn yn golygu y bydd isafswm cyflog y Cyngor yn £9.18 o fis Ebrill 2019 ymlaen. Mae hynny'n cymharu ag £8.21 fel isafswm cyflog y Llywodraeth Brydeinig (yr hyn a adnabyddir fel y Cyflog Byw Cenedlaethol) a £9.00 fel yr isafswm sy'n cael ei ystyried fel Cyflog Byw gan y corff gwirfoddol Sefydliad Cyflog Byw Cenedlaethol (swm fel a bennwyd ym mis Tachwedd 2018).

#### **ARGYMHELLIAD**

10. Bod y Pwyllgor yn cynnig y Datganiad o Bolisi Tâl drafft i'r Cyngor fel un i'w fabwysiadu ar gyfer 2019 / 20.